

PROSIECT PORFA CYMRU

Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2023



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO


CYNNWYS

Cefndir	3
Mesuriadau Porfa	4
Edrych yn ôl ar 2023	5
<i>Huw Williams - Ffordd Las, Rhuthun</i>	5
<i>James Williams - Fferm Cefn Draw, Abertawe</i>	6
<i>Sam Sawday - Hill Farm, Gelli Gandryll</i>	7
<i>Andrew Giles - Home Farm, Maesllwch, Dyffryn Gwy</i>	8
Adolygiad Twf Porfa 2023	9
Cromliniau twf porfa rhanbarthol 2023	10
Cyfanswm twf porfa ar gyfer 2023	14

CEFNDIR

Mae Prosiect Porfa Cymru yn rhoi gwybodaeth gyson am gyfraddau twf porfa rhanbarthol ac ansawdd porfa er mwyn galluogi ffermwyr da byw i wneud penderfyniadau ar reoli pori yn rhagweithiol ar sail gwybodaeth. Mae'n cynnwys 19 o ffermwyr llaeth ac 20 o ffermwyr biff a/neu ddefaid sy'n mesur eu porfa ac yn rhoi adborth ar dueddiadau tyfu.

Gyda glawiad dibynadwy Cymru, porfa yw ein "mantais gystadleuol" yn y farchnad laeth a chig coch leol a byd-eang. Dyma'r ffynhonnell porthiant fwyaf cynaliadwy i'n hanifeiliaid, a phan gaiff ei reoli'n dda, dyma'r mwyaf proffidiol.



Nodau'r prosiect yw:

- Annog ffermwyr i fesur eu porfa yn gyson
- Cofnodi cyfraddau twf porfa rhanbarthol a rhannu'r wybodaeth er mwyn i ffermwyr eraill Cymru feincodi mewn cymhariaeth
- Deall effaith y tywydd ar gynhyrchu porfa
- Deall effaith y math o bridd, dosbarth tir a rheolaeth ar gynhyrchu porfa
- Cynorthwyo, rhannu a datblygu adnoddau i wneud penderfyniadau ar gyfer rheoli pori

MESURIADAU PORFA

Defnyddiodd y ffermwyr i gyd fesurydd plât codi electronig, a oedd wedi ei galibradu a phlât plastig wedi ei osod i gael cysondeb.

Defnyddiwyd y cwestiwn safonol ar gyfer amcangyfrif deunydd sych:

$$\text{Gorchudd porfa (kgDM/ha)} = 125x + 640$$

(x = uchder porfa gywasgedig mewn 0.5cm)




TECHNEG FESUR

- Mesurwyd pob cae neu badog gyda lleiafswm o 30 “plonc” gyda phellter cyfartal rhyngddynt ar draws y cae neu badog ar siâp “W” neu linell groes gornel.
- Roedd y ffermwr yn dilyn yr un llwybr i fesur bob tro.



AMLDER Y MESUR

- Roedd ffermwyr llaeth yn mesur eu llwyfan pori bob wythnos neu bob yn ail wythnos.
- Roedd ffermwyr biff a/neu ddefaid yn mesur lleiafswm o 20 hectar (ha) bob pythefnos.



COFNODI MESURIADAU

- Roedd y ffermwyr yn cofnodi eu mesuriadau gorchudd porfa ynghyd â phryd y byddent yn chwalu tail neu wrtaith nitrogen ar feddalwedd rheoli porfa Agrinet. Yna, maent yn cofnodi unrhyw ddiwyddiadau pori neu silwair hefyd.

Mae'r cynnwys uchod wedi ei addasu o Adroddiad Diwedd Blwyddyn Prosiect Porfa Cymru 2022 a baratowyd gan Precision Grazing.



EDRYCH YN ÔL AR 2023 SAFBWYNT FFERMWR

HUW WILLIAMS - Ffordd Las, Rhuthun

Mae Huw Williams yn godro 250 o fuchod Holstein Friesian sy'n lloia yn yr hydref yn Ffordd Las, ger Rhuthun, mewn partneriaeth â'i frawd, Clwyd, a'u rhieni, Elwyn a Gwenan. Nhw yw'r bedwaredd genhedlaeth o ffermwyr llaeth ac yn yr un modd â'r rhai fu'n ffermio o'u blaenau, glaswellt yw sail cynhyrchu llaeth iddynt, a thrwy gyflwyno gwndwn llysieuol yn ddiweddar, mae'n rhaid iddynt greu llwyfan pori parhaus hyd yn oed mewn tywydd sych ar y fferm 177 hectar.

Porthiant o laswellt o safon uchel wedi'i bori a silwair sy'n llywio cynhyrchiant ac mae mesur glaswellt yn wythnosol trwy Brosiect Porfa Cymru Cyswllt Ffermio wedi caniatáu iddo wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ar ddyrannu pori sydd wedi trawsnewid y ffordd y mae'n ffermio:

“Mae wedi dangos i mi beth sy'n bosibl. Petai rhywun wedi dweud wrthyf rai blynyddoedd yn ôl faint o laeth y byddwn i'n gallu ei gynhyrchu ar y fferm yma oddi ar laswellt, fe fyddwn wedi chwerthin yn ei wyneb, ond mae cael y data yn dangos beth allwn ni ei gyflawni.”

Ar Ffordd Las, mae'r llwyfan pori yn cael ei stocio ar 4.2 o unedau da byw yr hectar, gyda'r fuches ar y glaswellt o ganol mis Chwefror hyd ddechrau mis Tachwedd, ond mae buchod yn mynd dan do dair wythnos cyn lloia o 20 Awst a'r buchod sych pell o loia yn cael eu defnyddio i reoli'r gorchudd porfa.

Yn 0.8ha – 1.6ha, mae'r rhan fwyaf o'r caeau yn fach, gan ganiatáu toriadau pori 12 awr heb isrannu mewn llawer ohonynt..

Y nod yw cau'r fferm ym mis Tachwedd gyda gorchudd o 2100kg DM/ha. Pan fydd glaswellt yn dechrau tyfu yn y gwanwyn, mae Huw yn targedu gorchudd o 2700kg i droi'r fuches iddo, gan bori nes bod gweddill o 1600kg.

Mae'n defnyddio mesurydd plât i gasglu data glaswellt, gan gofnodi hyn ar raglen gyfrifiadurol i gyfrifo cyfartaledd y gorchudd a'r cyfraddau twf ar gyfer yr

wythnos honno. Mae'r wybodaeth yn cael ei llwytho i gynllunydd glaswellt er mwyn llunio cyllideb hirdymor.

“Gallwn weld maint y gorchudd fydd gennym a chynllunio ein gofynion gwrtaitaith a phorthiant o gwmpas hynny,” meddai.

Dengys y data a rennir gyda Phrosiect Porfa Cyswllt Ffermio bod y fferm wedi tyfu 8.3tDM/ha hyd 23 Hydref 2023. Effeithiodd y sychder ar y glaswellt oedd ar gael yn 2022, gyda'r cynhyrchiant i lawr i 7.5tDM/ha mewn cymhariaeth â 9.8tDM/ha yn 2021.

Wrth symud ymlaen, cred Huw y bydd mwy fyth o bwysau ar ffermwyr i gynhyrchu mwy ar lai. Mae bod yn rhan o Brosiect Porfa Cymru wedi bod yn fanteisiol iawn wrth gyflawni'r nod hwnnw, mae'n barnu.

“Trwy rannu data, gallaf weld beth mae eraill yn ei dyfu a gallaf drafod syniadau gyda ffermwyr eraill sydd o'r un meddylfryd.”



JAMES WILLIAMS - Fferm Cefn Draw, Abertawe

James Williams yw'r drydedd genhedlaeth o'i deulu i ffermio Fferm Cefn Draw, Y Crwys, Abertawe. Roedd y fferm yn 69 hectar, ond pan ymddeolodd tad James, gwerthwyd 29 hectar. Gyda 40 hectar o dir yn parhau yn ei feddiant, bu'n rhaid i James ailfeddwl am ei system.

Roedd cychwyn ar gwrs Rhagori ar Bori Cyswllt Ffermio yn 2019 yn drobwynt, gan feithrin yr hyder a'r wybodaeth i werthfawrogi y gallai glaswellt fod â'r allwedd i gynnal niferoedd da byw ar gyfraddau hanesyddol.

Mae'n mesur tyfiant yn wythnosol, gan ddefnyddio'r meddalwedd, Agrinet, i gyfrifo'r gorchudd a'r nifer o ddyddiau pori ym mhob padog.

Rhennir y ffigyrau hyn gyda ffermwyr eraill trwy Brosiect Porfa Cymru Cyswllt Ffermio, gan adael i dyfwyr â thir, hinsawdd a systemau tebyg i feincnodi eu cynnyrch eu hunain.

“Rwy’ wir yn hoffi cofnodi data glaswellt oherwydd rwy’n gallu cymharu’r ffigyrau bob blwyddyn, ac mae mesur yn wythnosol yn rhoi’r cymhelliant i mi fynd allan ac edrych ar y fferm,” meddai James.

Wrth ystyried y pedair blynedd ddiwethaf, fe’u disgrifiodd fel rhai “trawsnewidiol”.

“Nid oeddwn yn sylweddoli pwysigrwydd rheoli glaswellt, rwy’n gweld rheoli uwch ben popeth arall fel y pwysicaf un,” mae’n cyfaddef.

“Mae’r fferm wedi cael ei thrawsnewid yn y pedair blynedd ers i mi gychwyn ar y daith hon. Pan ddechreuais i fesur, yng nghanol tyfiant y gwanwyn, fe fyddwn yn cofnodi 90kg/ha DM o dyfiant y dydd, yn 2023 roedd yn 155kg/ha.”

Y gwahaniaeth allweddol yw rheoli glaswelltir. Mae’r caeau wedi cael eu rhannu’n badogau ac mae James

wedi buddsoddi mewn ffensys ac isadeiledd dŵr a llwybr o’u cwmpas i wneud symud anifeiliaid rhwng padogau yn waith mor syml a di-straen â phosibl y gall un unigolyn ei wneud.

“Pan fyddwch chi’n symud yn ddyddiol, rydych chi’n gallu gweld faint mae’r glaswellt wedi tyfu mewn diwrnod. Mae’n gyffrous iawn i’w weld,” meddai James.

“Fy un peth i’w osgoi yw gorborei oherwydd mae cymryd yr ail damed hwnnw cyn i’r planhigyn adfer yn mynd ag egni o’r maeth sydd ar ôl yn y gwreiddyn.”

Wrth edrych ymlaen at 2024, bydd yn adeiladu ar yr hyn y mae wedi ei gyflawni yn barod. “Mae’r cyfan yn ymwneud â defnydd uchel, pori heb fod yn ddewisol, a geneteg.”



SAM SAWDAY - Hill Farm, Gelli Gandryll

Ar Hill Farm, ger y Gelli Gandryll, mae Sam a Will Sawday a’u mam, Penny Chantler, yn cadw diadell o 1,500 o ddefaid Romney Seland Newydd pedigri.

Maent wedi bod yn mesur glaswellt ers pum mlynedd, ac yn 2023, fe wnaethant rannu eu data tyfiant trwy Brosiect Porfa Cymru Cyswllt Ffermio. Mae’r glaswellt yn cael ei fesur yn wythnosol yn ystod y tymor tyfu ar y bloc cartref 61 hectar (ha).

“Mae mesur a llwytho’r data ar Agrinet wedi ein helpu i ddeall beth all ein fferm ei gyflawni,” meddai Sam.

Cyn iddo fod yn rhan o Brosiect Porfa Cymru, roedd yn defnyddio data a rannwyd gan ffermwyr eraill ar y safle i fod yn sail i lunio penderfyniadau.

“Byddwn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf bob pythefnos ac roeddwn yn gallu gweld beth oedd yn digwydd o ranbarth i ranbarth a sut yr oeddem yn cymharu.”

“Mae wedi bod yn neilltuol o bwysig yn ystod cyfnodau sych yr haf – mae’r ffigyrau’n dangos yn glir pan fydd y tyfiant yn lleihau.

“Petaem yn gwneud hynny a dibynnu ar y llygad yn unig, byddem 10 diwrnod yn arafach yn gweithredu, ond rydym yn gallu rhagweld y prinder bwyd a gwneud penderfyniadau ar sail y data.”

Pan fydd y glaswellt yn cael ei fesur, mae’n cael ei wneud mewn ffordd unffurf iawn.

“Rydym yn dilyn yr un llwybr bob tro, yr un patrwm, gan fesur yr un mannau i raddau helaeth. Mae’n cael gwared ar yr holl amrywiolion,” meddai Sam.

Yr hyn mae wedi ei ddangos yw pa mor amrywiol y gall perfformiad fod o gae i gae.

“Y rhan fwyaf defnyddiol yw deall beth sydd yno, beth yw’r potensial, a beth fydd y cyfnodau positif a negyddol wrth symud ymlaen,” meddai Sam.

“Po fwyaf y byddwch yn mesur, y mwyaf y byddwch yn deall eich fferm a pha gaeau i’w rhannu’n llai.”

Mae hefyd yn helpu i osgoi sefyllfaoedd pan fydd padogau’n cael eu gorborei.

Rhoddodd mesur yr hyder i’r busnes bori cyfran o’r tir gyda 90 o fustych croes o wartheg llaeth yr haf yma am y tro cyntaf, mewn cytundeb pori gyda fferm arall, i gynyddu ffrwythlondeb y pridd a thorri’r cylch llyngyr.

Nid yw Hill Farm yn fusnes sy’n sefyll yn llonydd ac mae’r cynlluniau ar gyfer 2024 yn datblygu’n barod. “Rydym yn ceisio gwella ein cylchdro a gwella’r cydbwysedd rhwng ansawdd a chyfnodau gorffwys a gweld beth allwn ni ei gyflawni,” meddai Sam.



ANDREW GILES -
Home Farm, Maesllwch, Dyffryn Gwy

Er mwyn cynhyrchu llaeth o safon uchel a chadw'r buchod llaeth yn iach, mae angen i Maesllwch dyfu digon o laswellt da.

Llwyddir i gyflawni hynny trwy fesur y cynnyrch yn wythnosol i fonitro perfformiad y gwndwn.

“Mae glaswellt yn yrrwr allweddol o ran elw'r busnes,” meddai Andrew Giles, sy'n cynhyrchu llaeth o fuches o 550 o fuchod Friesian Seland Newydd.

Mae mesur y glaswellt yn wythnosol yn waith y mae'n rhaid ei wneud “yn ddi-ffael”.

Am y tair blynedd diwethaf, mae Andrew wedi bod yn rhannu ei ddata tyfiant glaswellt trwy Brosiect Porfa Cymru Cyswllt Ffermio.

Mae casglu'r data hwn yn ei helpu i gynllunio ar gyfer cyfnodau pan fydd porfa'n brin yn y tymor tyfu, ac i reoli'r rhain mor fuan â phosibl.

Mae Maesllwch yn fferm sych iawn gyda chyfartaledd glawiad tua 860mm (34 modfedd) y flwyddyn.

Ond trwy reolaeth ragorol ar laswellt gan Andrew a'i dîm, gall y fferm dyfu cyfartaledd o 13tDM/ha y flwyddyn.

Pan fydd y tyfiant yn mynd dan y cyfartaledd o ran yr hyn y mae Andrew yn ei ddisgwyl ar amser penodol o'r flwyddyn, un o'r newidiadau cyntaf y mae'n eu gwneud yw ymestyn hyd y cylch pori.

Os bydd rhagolygon y tywydd yn awgrymu cyfnod sych, mae'r dwysfwd a roddir yn cael ei gynyddu a gall silwair gael ei roi yn y padog hefyd, ar ben y borfa ffres i addasu'r galw am laswellt.

Bydd y glaswellt yn cael ei fesur bob dydd Llun gan reolwr y fuches, John Thomas, sy'n rhoi'r data ar Agrinet i roi darlun cywir o'r gorchudd glaswellt a'i dyfiant.

Trafodir y data mewn cyfarfod tîm rhwng Andrew a John, rheolwr y fferm, Tom Williams, a'r rheolwr buches cynorthwyol, Luke Evans.

Seilir y penderfyniadau ar y data hwn i sicrhau bod y fuches yn cael glaswellt o safon uchel bob dydd o'r tymor pori.

Daeth Andrew yn ffermwr monitro Prosiect Porfa Cymru oherwydd ei fod yn deall gwerth rhannu gwybodaeth a syniadau.

“Mae llawer o ffermwyr, gan fy nghynnwys i, sydd wedi bod yn mesur a monitro glaswellt ers nifer dda o flynyddoedd. Os gallwn ni annog eraill i wneud hynny trwy Brosiect Porfa Cymru a defnyddio'r wybodaeth, yna mae'r prosiect hwn wedi bod yn llwyddiannus,” meddai.



ADOLYGIAD TWF PORFA 2023

Yn gyffredinol, mae tymor pori 2023 wedi dangos cynhyrchiant glaswellt uwch na blynyddoedd blaenorol. Ond, mae'r glawiad uchel trwy'r rhan fwyaf o'r tymor wedi achosi amodau pori heriol iawn i rai ffermydd.

Ar ôl dechrau arafach na gwanwynau blaenorol, roedd twf y glaswellt, ar gyfartaledd, yn uwch nag yn 2022 trwy mis Ebrill a daeth i'w anterth ar gyfartaledd wythnosol o 86.1 kg DM/ha yng nghanol mis Mai i ffermwyr llaeth a/neu biff a defaid. Ar ôl yr uchafbwynt hwn, bu dirywiad yn nhwf y glaswellt yn ystod yr wythnosau dilynol oherwydd y cyfnod sych yn gynnar yn y tymor, lle'r oedd twf y glaswellt yn llai na'r twf yn yr un cyfnod yn 2022. Roedd hyn yn parhau i fod yn wir nes daeth y glaw ym mis Gorffennaf, a chofnodwyd mis Awst fel un o'r deg uchaf ymhlith hafau gwlyb y Deyrnas Unedig.




Ffigur 2. Cromlin Twf Porfa Prosiect Porfa Cymru 2023




Ffigur 3. Cromlin Twf Porfa Prosiect Porfa Cymru – 2022 a 2023


CROMLINIAU TWF PORFA RHANBARTHOL




Ffigwr 4a. Cromlin twf porfa 2023 ar gyfer rhanbarth 1




Ffigwr 4c. Cromlin twf porfa 2023 ar gyfer rhanbarth 3




Ffigwr 4b. Cromlin twf porfa 2023 ar gyfer rhanbarth 2




Ffigwr 4d. Cromlin twf porfa 2023 ar gyfer rhanbarth 4




Ffigwr 4e. Cromlin twf porfa 2023 ar gyfer rhanbarth 5



Ffigwr 4g. Cromlin twf porfa 2023 ar gyfer rhanbarth 7




Ffigwr 4f. Cromlin twf porfa 2023 ar gyfer rhanbarth 6



Ffigwr 4h. Cromlin twf porfa 2023 ar gyfer rhanbarth 8

CYFANSWM TWF PORFA AR GYFER 2023

Ar gyfartaledd, tyfodd ffermydd llaeth ledled Cymru 13.4tDM/ha a thyfodd ffermydd biff a/neu ddefaid 8tDM/ha. Mae'r graff isod yn dangos amcangyfrif y tunelli o ddeunydd sych (tDM/ha a dyfwyd ar ffermydd llaeth a biff/defaid trwy'r wyth rhanbarth sy'n rhan o Brosiect Porfa Cymru.



Ffigur 5. Amcangyfrif tunelli o ddeunydd sych (t DM/ha) ar gyfer Prosiect Porfa Cymru 2023 i bob rhanbarth

Mae hyn yn uwch na'r 10t DM/ha a 6.8t DM/ha a gofnodwyd yn 2022 gan ffermwyr llaeth a biff a/neu ddefaid oedd yn cymryd rhan ym Mhrosiect Porfa Cymru, wrth edrych yn ôl. Ond, yn debyg i 2022, mae amrywiaeth mawr yng nghyfraddau twf porfa trwy wahanol ranbarthau Cymru.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl ffermwyr sydd wedi cyflwyno eu mesuriadau glaswellt trwy gydol tymor pori 2023. Mae eu hymrwymiad a'u parodrwydd i fod yn rhan o'r prosiect yn gadael i ni roi'r ffigyrau twf glaswellt rhanbarthol diweddaraf ar gyfer Cymru yn gyson trwy gydol y tymor.